



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 6 Rhagfyr 2016 am 6.00yh yn yr Ystafell Gynhadledd, 36 Pendre, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 6 December 2016 at 6.00pm at the Conference Room, 36 Pendre, Cardigan.

Presennol/Present—Y Cynghorwyr/Councillors Clive Davies (**yn y gadair/in the chair**), John Adams-Lewis, Dai Brabrook, Graham Evans, Gwynfi Jenkins, Catrin Miles, Jane Roche, Akira Shimazaki.

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

The Chair's Welcome and Personal Matters.

Croesawodd y Maer, y Cyng. Clive Davies, bawb i'r cyfarfod. Croesawodd yn arbennig y Cyng. Akira Shimazaki yn dilyn ei daith i Siapan yn ddiweddar. Cyfeiriwyd at brofedigaeth drist y cyn-gynghorydd, Ms Sarah Wright, a gollodd ei mab, Leon, yn frawychus o sydyn, yn 28 mlwydd oed.

The Mayor, Cllr Clive Davies, welcomed all to the meeting. A special welcome was afforded to Cllr Akira Shimazaki who had returned from his visit to Japan. Members conveyed their condolences to past councillor Ms Sarah Wright whose son, Leon, passed away unexpectedly, at 28 years of age.

2. Ymddiheuriadau / Apologies: Y Cyng. / Cllrs Mark Cole (*gwaith/work commitments*), Richard Jones (*gwaith/work commitments*), Ken Edwards (*gwaith/work commitments*), Melfydd George (*anhwylder/unwell*).

3. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Pherionol gan Gynghorwyr.

Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis	<i>Yr holl faterion cynllunio / All planning matters.</i>
Y Cyng. Cllr Catrin Miles	<i>Gohebiaeth / Correspondence, item 10[195]</i>

4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 1 Tachwedd.

Confirmation of Minutes of 1 November Council Meeting.

Cynigiwyd gan y Cyng. Catrin Miles ac eiliwyd gan y Cyng. Dai Brabrook bod y cofnodion yn gywir.

Cllr Catrin Miles proposed that the minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr. Dai Brabrook

5. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.

Tud. 1172, eitem 6: Dywedodd y Cyng. Catrin Miles y bydd yn paratoi'r holiadur at grantiau'r cyngor cyn bo hir.

Tud. 1175, eitem 11[158]: Bydd Partneriaeth Canol Tref Aberteifi yn talu'r costau am gau'r ffyrdd.

Tud. 1176, eitem 11[170]: Dywedodd y Cyng. John Adams-Lewis ei fod ef a'i briod wedi mwynhau achlysur Cyngerdd Gala'r Coffa yng Nghaerfyrddin yn fawr iawn. Gwrthododd y Cyng. Adams-Lewis dderbyn ei gostau teithio i'r safle.

Tud. 1178, eitem 14(c): Cyfarfu'r Maer a'r Cyng. John Adams-Lewis gydag arbenigwyr ym maes trin problem colomennod ar adeiladau yn y Stryd Fawr. Cytunwyd ymchwilio i mewn i berchenogion adeiladau a effeithiwyd.

Page 1172, item 6: Cllr Catrin Miles stated that the preparation of the grant application questionnaire was in hand.

Page 1175, item 11[158]: The Cardigan Town Centre Partnership will meet the costs for the road closure.

Page 1175, item 11[170]: Cllr Adams-Lewis stated that he and Mrs Adams-Lewis had very much enjoyed the Gala Concert of Remembrance at Carmarthen recently. Cllr Adams-Lewis declined his right to claim travelling expenses.

Page 1178, item 14(c): The Mayor and Cllr Adams-Lewis had a useful meeting with specialists in the field of dealing with pigeon pest control on buildings in the High Street. It was agreed to acquire the details of ownership of affected buildings.

6. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

Dosbarthwyd dyddiadur y Maer i'r holl aelodau yn y cyfarfod.

The Mayor's diary was distributed to all members at the meeting.

Ychwanegodd y Maer fanylion am ddiwrnod "Siwmpwr" yn Aberteifi dros ddeuddydd 15/16 Rhagfyr. Trefnir sawl digwyddiad yn y dref a bydd y cyfryngau yn gwneud eu rhan. Bydd elw'r gweithgareddau yn mynd tuag at Gronfa Achub y Plant.

The Mayor added the details regarding the "Jumper" event to be held on 15/16 December. A number of events has been organised with the media in attendance. The proceeds will go towards the Save the Children Fund.

7. Cynllunio / Planning:

Rhif y Cais / Application No.	Cyfeiriad / Address	Y Bwriad / Proposal	Sylwadau / Comments
A161031	Bwthyn Bach, William Street	Material change of use and extension and landscaping and improvement works to form habitable accommodation (partly retrospective).	Questions regarding drainage of the site need to be answered. Members are not pleased that the application is retrospective and request that a site meeting be held.
A161117 & A161124 (LB)	5 Castle Street	Change of use from A1 (showroom display) to A2 (solicitor office), minor internal alterations, enlarging vehicle access opening, modification of the existing access ramp and associated works.	<i>Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais.</i> Council supports the application.

8. (a) Biliau i'w talu / Bills to be paid.

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhif y Siec / Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
30/11/16	Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor/</i> Rent of Council Office (<i>Tachwedd/</i> November). <i>Rhent yr Ystafell Gynhadledd/</i> Rent of Conference Room (1, 15 <i>Tachwedd/</i> November) <i>Band Lydan (Rhagfyr) /</i> Broadband (December)	A9 A9 A20	D/D 4328	£250.00 (0.00) £50.00 (0.00) £20.00 (0.00)
30/11/16	L. W. Jones: <i>Cyflog y Clerc /</i> Clerk's Salary (<i>Tach./</i> Nov.)	A3	4329	£748.90 (0.00)
1/11/16	Midshire: <i>Llungopïo /</i> Photocopying	A7	4330	£5.53 (0.92)
2/11/16	D. E. Owen & Sons: <i>Torri'r borfa.</i> Grasscutting (King George 5 th Playing Field)	B3	4331	£1,819.14 (303.19)
30/11/16	Ken Griffiths: <i>Archwilydd Mewnol /</i> Internal Auditor	A13	4332	£300.00 (0.00)
31/10/16	CCF: <i>Deunydd i gyfarpar y maes chwarae.</i> Material for playing field equipment.	C3	4333	£43.05 (2.05)
14/11/16	Menter Aberteifi: <i>Hurio Neuadd y Dref.</i> Hire of Guildhall (Remembrance Sunday)	A23	4334	£42.50 (0.00)
14/11/16	J. D. R. Thomas: <i>System sain.</i> Sound system (Remembrance Sunday)	A23	4335	£90.00 (15.00)
21/11/16	Trywydd: <i>Cyfieithu ar y pryd/</i> Simultaneous translation (1/11/16)	A18	4336	£98.40 (16.40)
16/11/16	Aeron Waste Services: <i>Toiledau symudol.</i> Portable toilets (Cardigan Fair)	B10	4337	£144.00 (24.00)

18/11/16	Proludic: <i>Atgyweirio cyfarpar</i> . Repairs to equipment (King George 5 th play area)	C3	4338	£195.12 (32.52)
30/11/16	Y Cyng. / Cllr J. Clive Davies: <i>Ail randal Lwfans y Maer</i> . Mayor's allowance (second instalment).	A1	4339	£1,600 (0.00)
25/10/16	Teifi Installations: <i>Gwaith ar Gae Chwarae Pentop</i> . Work on Pentop Play Area.	C12	4340	£9,609.60 (1,601.60)
18/10/16	MD Recycling Ltd.: <i>Gwaith ar Gae Chwarae Pentop</i> . Work on Pentop Play Area.	C12	4341	£2,652.96 (442.16)
28/11/16	<i>Costau'r clerc</i> / Clerk's expenses: Refreshments and mulled wine (13/11/16), additional postage charges (recorded mail, etc., Wales Audit Office)	A21	4342	£29.91 (0.00)
30/11/16	M. & E. Pearce: <i>Deunydd i gyfarpar man chwarae</i> / Materials for play area	C3	4343	£50.98 (8.50)
30/11/16	<i>Bachan Deche</i> / Handyperson (<i>Tachwedd/November</i>)	A19	4344	£323.80 (47.30)

Cynigiodd y Cyng. John Adams-Lewis bod y biliau uchod yn cael eu talu ag eithrio biliau Teifi Installations ac MD Recycling Ltd. hyd nes i'r Cyng. Catrin Miles eu craffu; eiliwyd gan y Cyng. Jane Roche.

Cllr John Adams-Lewis proposed that the above bills, with the exception of Teifi Installations and MD Recycling Ltd., which need to be scrutinised by Cllr Catrin Miles, be paid; this was seconded by Cllr Jane Roche.

Derbyniadau/Receipts:

10/10/16 *Llog y Banc* / Bank interest £2.54

(b) **Gosod dyddiad i gyfarfod y gyllideb.** Set date for budget meeting.

Cytunwyd cynnal y cyfarfod ar 10 Ionawr am 6.00yh.

It was agreed to hold the meeting on 10 January at 6.00pm.

(c) **Apwyntiad Archwilydd Mewnol** / Appointment of Internal Auditor.

Cytunwyd bod y cyngor yn gwahodd Mr Ken Griffiths i archwilio cyfrifon y cyngor am y flwyddyn ariannol 2016-17. Cynigiwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. Graham Evans.

It was agreed that the council invites Mr Ken Griffiths to audit the council's accounts for the 2016-17 financial year. Proposed by Cllr John Adams-Lewis and seconded by Cllr Graham Evans.

9. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.

(a) Y Cyng. Mark Cole (*derbyniwyd e-bost yn ei absenoldeb*):

(i) **Adroddodd y Cyng. Cole yn ôl yn dilyn cyfarfod buddiol a gafodd gyda swyddogion Cyngor Sir Ceredigion a phreswylwyr lleol ynglŷn â phryderon a godwyd am Stryd Wiliam. Caiff holiadur ei anfon at bawb yn y stryd yn gofyn am eu barn er mwyn symud ymlaen.**

(ii) **Dywedodd y Cyng. Cole y byddai'n fuddiol cynnal cyfarfod ynglŷn â Charnifal y dref ym mis Ionawr gan adael i wyl y Nadolig fynd heibio cyn gosod posteri i gyhoeddi'r cyfarfod a chysylltu â'r wasg.**

(iii) **Gofynnodd y Cyng. Cole i gyngor y dref ystyried galw cyfarfod safle i drafod cais A161031 (Bwthyn Bach, Stryd Wiliam), gan ei fod yn rhannol ôl-dremiol.**

(b) Y Cyng. John Adams-Lewis:

(i) **Trafodwyd cais cynllunio Llyfrgell Aberteifi mewn cyfarfod o Bwyllgor Rheoli Datblygu'r cyngor sir ar 9 Tachwedd. Datgelwyd nad oedd yn bosib gosod croesfan ar gyffordd Stryd Morgan/Stryd y Priordy a bod neb wedi cwyno dros y deng mlynedd am y diffyg yma; nid oes adroddiad am ddamwain wedi digwydd yno chwaith. Bydd y cyngor sir yn dal i fonitro'r drafniadaeth gyda'r awgrym i leihau'r cyflymder i 20mya.**

(ii) **Mae Pwyllgor Cymunedau Ffynniannus y cyngor sir yn bwriadu cynnal adolygiad eto o gysgodfannau bysiau ar hyd y sir. Gwnaed adolygiad tebyg gan y clerc a'r Cyng. Dai Brabrook yn ystod mis Tachwedd 2015 a darganfuwyd mai tystiolaeth am un gysgodfan yn unig sydd gan gyngor y dref o'r ddeunaw a glustnodir gan yr awdurdod.**

(iii) **Mynychodd y Cyng. Adams-Lewis gyfarfod blynyddol Area 43 ar 22 Tachwedd (ymddiheurodd nifer o gynghorwyr am eu habsenoldeb). Mae Mr Phil Layton, y rheolwr presennol, yn ymddeol. Ms Sally Jones yw'r arolygydd a bydd Mr Ryan Davies yn dechrau fel rheolwr cyn bo hir.**

- (iv) Cynhaliwyd cyfarfod o'r gweithgor llifogydd yng Ngorffwysfa'r Pysgotwr ar 21 Tachwedd; roedd chwe pherson yn bresennol.
- (v) Ar 30 Tachwedd bu'r Cyng. Adams-Lewis a'r clerch ynghyd ag aelodau'r Frigâd Dân a swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru i archwilio'r difrod a wnaed gan fandaliaid i dwel atal llifogydd y Mwldan. Mae'n amlwg bod y troseddwyr yn benderfynol i addasu'r twnel fel maes sgrialu ychwanegol, a gorfu i'r awdurdod newid mesurau diogelwch yno. Cytunwyd codi'r mater yng nghyfarfod nesaf PACT.

(c) Y Cyng. Catrin Miles:

- (i) Bydd staff gweinyddol y cyngor sir yn cael eu lleoli dros dro yng Nghanolfan Teifi ar 3 Ionawr 2017 tra bo gwaith ailstrwythuro'r llyfrgell yn mynd yn ei flaen yn Stryd Morgan.
- (ii) Mae posteri sydd yn cael eu gadael ar gysgodfannau'r dref yn eu hanharddu. Mae hefyd posteri yn cael eu gludo ar flychau BT. Yn ogystal mae angen tynnu i ffwrdd hysbysiadau'r cyngor sir sydd yn dynodi cau'r ffyrdd am amryw ddigwyddiadau.
- (iii) Mae'r lôn fach, serth o Bron-y-dre i lawr i ffordd y Mwldan yn llithrig oherwydd y casgliad o ddail sydd arni. Cytunwyd cysylltu â'r cyngor sir i'w chlirio a'u glanhau.
- (iv) Mae'r arian a dderbyniwyd o wobwr yr "M&S Energy Fund" tuag at osod paneli haul wedi ei groesawu'n fawr, ond mae prinder arian yn dal i bryderu'r pwyllgor. Cynhelir bore coffi ar 14 Ionawr a noson ymgynghori ar 2 Chwefror yn Neuadd y Pwll Nofio am 7.00yh.
- (v) Cwmni Avanti. Dywedodd y Cyng. Miles ei bod wedi cysylltu gyda'r cwmni ynglŷn â rhaglen sydd yn penodi person haeddiannol o'r gymuned i'w gwobrwyo gyda thri pherson yn arbenigo mewn pobi cacennau. Gofynnwyd i'r aelodau gynnig enwau o bersonau addas i dderbyn y wobwr.

(a) Cllr Mark Cole (e-mail received in his absence):

- (i) Cllr Cole reported back on a productive meeting held with officials from Ceredigion County Council and local residents regarding concerns raised in William Street. A questionnaire will be posted to all residents on the street asking for their views to see if there is a clear majority-feeling on a way forward.
- (ii) Cllr Cole reported back on the arrangements of holding a meeting regarding reintroducing Cardigan Carnival in January to allow for Christmas time pressures and to allow time to publicise with posters and in the press.
- (iii) Cllr Cole requested that town council considers calling for a site meeting for planning application A161031, Bwthyn Bach, William Street, because it is in part retrospective.

(b) Cllr John Adams-Lewis:

- (i) The Development Control Committee of the county council discussed the Cardigan Library planning application on 9 November. It was disclosed that a pedestrian crossing would not be introduced on the Morgan Street/Priory Street junction; no complaints had been received during the past ten years with no reports of accidents having occurred thereat. The county council will continue to closely monitor the traffic situation and will consider applying for a future 20mph speed restriction to be imposed.
- (ii) The Thriving Communities Committee of the county council intends to undertake a further phased review of the bus infrastructure across the county. A similar review took place during November 2015. The clerk and Cllr Dai Brabrook undertook the task on behalf of the town council and noted that documentation showed the council owned one only of the eighteen earmarked by the county council.
- (iii) Cllr Adams-Lewis attended the Area 43 AGM on 22 November (a number of councillors had forwarded apologies for their absence). Mr Phil Layton, the present manager, has retired. Ms Sally Jones is the supervisor and Mr Ryan Davies has been appointed the new manager.
- (iv) A meeting of the flood alleviation working party met at the Fisherman's Rest on 21 November; six members were present.
- (v) On 30 November the clerk and Cllr Adams-Lewis together with members of the local fire Brigade and officers of Natural Resources Wales visited the flood alleviation tunnel control room in the Mwldan. This visit materialised following a spate of vandalism at the tunnel. Premeditated vandalism had caused damage to heavy duty locks and security chains as well as the CCTV camera unit and other controls. The offenders had used the tunnel as a skateboard surface and endangered their lives as well as potential rescuers. It was agreed to raise the issue at the next PACT meeting.

(c) Cllr Catrin Miles:

- (i) The county council administrative staff will be relocated temporarily to Canolfan Teifi as of 3 January 2017 whilst work will commence to construct the new library in Morgan Street.
- (ii) Posters left on bus shelters are difficult to remove and deface the structures. Posters are also left on BT boxes and the notices of road closures issued by the county council are also very often left unremoved.
- (iii) The steep lane from Bron-y-dre towards the Mwdan is rather treacherous due to the rotting leaves. It was agreed to contact the county council technical services to clear and clean the lane.
- (iv) The recent award received from the M&S Energy Fund towards solar panels for Cardigan Swimming Pool will be a welcome development but lack of revenue funding is still an issue. A fund-raising coffee morning will be held on 14 January and a public consultation meeting is being arranged at the Memorial Pool Hall at 7.00pm on Thursday, 2 February 2017.
- (v) Cwmni Avanti. Cllr Miles stated that she had been approached by the company regarding a programme which rewards a deserving member of the community by presenting him/her with three cakes baked by specialists. Members were asked to suggest a worthy recipient.

10. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
184	CSC / CCC (Bronwen Morgan): <i>Cydnabyddiaeth o lythyr y cyngor yngŷn ag ailgartrefu ffoaduriaid yng Ngheredigion.</i> Acknowledgement of council letter regarding the rehousing of Syrian refugees in Ceredigion.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
185	CSC / CCC (Lewis Barron): <i>Holiadur – "Asesiad Strategol Trosedd ac Anhrefn Ceredigion 2017".</i> Questionnaire – "Ceredigion Crime and Disorder Strategic Assessment 2017"	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 8/11/16. <i>Cytunodd y Maer lanw'r holiadur.</i> The Mayor agreed to complete the questionnaire.
186	CSC / CCC (Ros Woodcraft): <i>Diwrnod Hawliau Gofalwyr / Carers' Rights Day 2016 – Feathers Hotel, Aberaeron, 16/11/16, 10.30-3.30pm</i>	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 8/11/16.
187	CSC / CCC (Ann Jones): <i>Cau'r ffordd / Road closure – (Stryd y Santes Fair / St Mary's Street, 5/12/16 - 9/12/16), Adnewyddu gylis / Replacing gullies.</i>	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 8/11/16.
188	CSC / CCC (Cathryn Morgan): <i>Diweddariad ar fan chwarae Netpwl.</i> Update on the Netpool play area.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 6/12/16. <i>Gwyntyllwyd gan aelodau nad oedd y newidiadau yn berthnasol i blant a bod angen asesiad risg ar y maes.</i> <i>Mae parcio hefyd yn broblem ar y ffordd. Cytunwyd i'r Cyng. Adams-Lewis a Catrin Miles drafod y pryderon gyda Mr Paul Arnold.</i> Members highlighted the potential problems which may be caused by the inappropriate replacements and the ongoing parking problems at Netpool. Cllrs Adams-Lewis and Catrin Miles agreed to discuss the concerns further with Mr Paul Arnold.
189	CSC / CCC (Naomi McDonagh): <i>Ceredigion CE Democracy "Sesiynau Codi Ymwybyddiaeth a Hyfforddiant ar gyfer mynd i'r afael ag Oedraniaeth".</i> Older People's Commissioner's Office: "Tackling Ageism and Awareness Raising" sessions, Aeron Room, Penmorfa, Aberaeron, 13/1/17, 10.00-4.00pm.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 6/12/16.
190	<i>Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru: Arolygon Etholiadol Polisi ac Arfer.</i> Local Democracy and Boundary Commission for Wales: Electoral Reviews – Policy and Practice.	<i>Mae'r ddogfen ar gael ar wefan y Comisiwn.</i> The document is available on the Commission's website.

191	<i>Cyngor Cymuned Llandudoch: Ymddiheuriad am absenoldeb y Cadeirydd o wasanaeth Sul y Cadoediad.</i> St Dogmaels Community Council: Apology for the absence of the Chairperson from the Remembrance Sunday service on 13/11/16.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
192	Mr John Allen-Mirehouse, <i>Dirprwy Raglaw / Deputy Lieutenant: Llythyr o ddiolch am gael cymryd rhan yn oedfa Sul y Cadoediad.</i> A letter of appreciation for being invited to the Sunday Remembrance service on 13/11/16	<i>Nodwyd.</i> Noted.
193	SSE Lighting: <i>Pris am osod golau newydd ar Lôn Cnwcydintir.</i> Quotation for the installation of a new light at Cnwcydintir Lane.	<i>Cytunwyd bod y gwaith yn gael ei gyflawni wedi cysylltu â Mr Simon Bray, Cynorthwydd Technegol Goleuadau Stryd y cyngor sir.</i> It was agreed to carry out the replacement of the two lights with the one stated column following the advice of Mr Simon Bray, county council Street Lights Technical Assistant. Proposed by Cllr Adams-Lewis; seconded by Cllr Dai Brabrook.
194	<i>Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau Aberteifi: Cais am lythyr o gefnogaeth i ymdrechion yr Ymddiriedolaeth i adnewyddu'r farchnad.</i> Cardigan Building Preservation Trust: An application for a letter of support regarding the Trust's proposal to engage in a full restoration for the markethall.	<i>Cytunwyd anfon llythyr o gefnogaeth.</i> It was agreed that a letter of support be forwarded.
195	Tai Ceredigion: <i>Ymateb i lythyr y cyngor ynglŷn â man chwarae Maesglas.</i> Response to the council's letter regarding the Maesglas play area.	<i>Cytunwyd trafod y mater yng nhyfarfod Is-bwyllgor 17 Ionawr gyda gwahoddiad i gynrychiolydd grŵp gweithredol Maesglas i fod yn bresennol.</i> It was agreed to discuss the issue at the 17 January sub-committee meeting and to invite a member of the Maesglas and North Cardigan Project committee to be present.
196	Area 43: <i>Cyfarfod Blynyddol / Annual General Meeting, 22/11/16 in the Centre at 7.30pm.</i>	<i>Trafodwyd yn yr is-bwyllgor.</i> Discussed at the sub-committee meeting.
197	Tai Wales & West Housing: <i>Manylion cyswllt / Contact details: Archway House, 77 Parc Tŷ Glas, Llanishen, Cardiff SF14 5DU</i>	<i>Nodwyd.</i> Noted.
198	<i>Partneriaeth Canol Tref Aberteifi: Cais i osod baner ar ffens Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed – Gŵyl y Nadolig.</i> Cardigan Town Centre Partnership: Application to place banner on the King George 5th Playing Field fence – Christmas Festival	<i>Mae swyddog y Pwyllgor Ymgynghorol wedi caniatáu'r cais.</i> Application approved by an officer of the Advisory Committee.
199	Mark Williams AS/MP: <i>Poster o ddyddiadau cymorthfeydd.</i> Poster of surgery dates.	<i>Mae poster wedi ei arddangos ar yr hysbysfwrdd.</i> Poster displayed on notice board.
200	<i>Cyngor Ar Bopeth: Llythyr o ddiolch am grant y cyngor.</i> Citizens Advice Bureau: Acknowledgment of council grant.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
201	<i>Canolfan Hamdden a Phwll Nofio Aberteifi: Llythyr o ddiolch am grant y cyngor.</i> Cardigan Swimming Pool & Leisure Complex: Acknowledgment of council grant.	<i>Mae'r cyfraniad wedi caniatáu'r pwyllgor i brynu 140 o seddau plyg.</i> The contribution has enabled the committee to purchase 140 folding chairs.
202	Shelter Cymru: <i>Llythyr o ddiolch am grant y cyngor.</i> Acknowledgment of council grant.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
203	Cardigan Division St John Ambulance Brigade: <i>Cais am gymorth i chwilio garej i gadw'r ambiwlans.</i> A letter requesting support to locate a garage for the Division's ambulance.	<i>Mae nifer o leoliadau addas wedi eu crybwyll i swyddogion y mudiad..</i> A number of suitable locations has been identified and the information forwarded to members of the Division.
204	Ray Ceredigion: <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial support.	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgorau Grantiau mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee. <i>Ffurflen gais wedi ei hanfon.</i> Application form forwarded, 24/11/16.
205	Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn: <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial support.	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgorau Grantiau mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee.

206	<i>Cyfoeth Naturiol Cymru: Newyddion am lifogydd ac amserlen y llanw.</i> Natural Resources Wales: Flood warning and tide tables	<i>Nodwyd.</i> Noted.
207	<i>Comisiynydd y Gymraeg: Grŵp trafod yn Theatr Mwldan, 13/12/16, 11.00yb.</i> Welsh Language Commissioner: Session at Theatr Mwldan	<i>Mae posteri wedi eu harddangos ar yr hysbysfwrdd.</i> Posters have been displayed on notice board.
208	<i>Man chwarae Pentop Play Area: Gohebiaeth rhwng cyfreithwyr ynglŷn â thaliadau cyfreithiol.</i> Correspondence between solicitors regarding payment of legal fees.	<i>I'w drafod mewn pwyllgor.</i> To be discussed in committee.
209	Mr a Mrs M. Rees, 6 Park Avenue: <i>Ymholiad ynglŷn â'r pyst pêl-droed.</i> Follow-up regarding the location of goalposts.	<i>Awgrym y gweithgor a sefydlwyd yng nghyfarfod blynyddol yr elusen yw gosod y pyst ger man chwarae'r plant.</i> The recommendation of the working group set up at the charity's AGM is to move the goalposts alongside the children's play area. The advisory committee and Mr and Mrs Rees to be informed of this recommendation.
210	<i>Bachan Deche: Adroddiad mis Tachwedd.</i> Handyperson's November report.	<i>I'w drafod tan eitem 11.</i> To be discussed under item 11.

Ann Jones:	<i>Adain Cau Ffyrdd / Road Closure Section</i>
Bronwen Morgan:	<i>Prif Weithredwr / Chief Executive.</i>
Cathryn Morgan:	<i>Cydlynnydd Teuluoedd yn Gyntaf / Families First Coordinator</i>
Lewis Barron:	<i>Policy Officer, Community Safety and Civil Contingencies Unit</i>
Naomi McDonagh:	<i>Swyddog Iechyd yr Amgylchedd – Gwella Iechyd / Environmental Health Officer – Health Improvement</i>
Ros Woodcraft:	<i>Uned Gofalwyr – Swyddog Cymorth Busnes / Carers Unit Business Support Officer</i>

11. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.

Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.

Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 15 Tachwedd.

Confirmation of 15 November Sub-committee Minutes.

Cynigiodd y Cyng. Gwynfi Jenkins bod cofnodion 15 Tachwedd yn rhai cywir; eiliwyd gan y Cyng. Graham Evans.

Cllr Gwynfi Jenkins proposed that the minutes of 15 November be accepted as correct; seconded by Cllr Graham Evans.

Materion yn codi Matters arising:

Tud. 1179 (Llwybrau Cyhoeddus): Dywedodd y clerc ei fod wedi derbyn y mapiau ar e-bost a hefyd wedi argraffu copiâu A3 ohonynt a'u lamineiddio i'w cadw yn y swyddfa.

Tud. 1180 (Blodau 2017): Mae angen cael gwybodaeth oddi wrth Mr John Hadlow, Arolygydd Meysydd a Gerddi'r cyngor sir, ynglŷn â chynlluniau'r awdurdod am flodau 2017.

Tud. 1181 (Cae Chwarae Brenin Siôr Sed: prydles y Clwb Bowls) – Mae'r clerc wedi siarad â Mr Andrew Morgan (Morgan & Davies, Priswyr); mae Mr Morgan wedi cadarnhau y bydd ei sylwadau yn nwylo'r Cyngor cyn diwedd yr wythnos hon.

Tud. 1181 (Cae Chwarae Pentop): Cadarnhaodd y clerc bod grant o £7,268 wedi ei dderbyn oddi wrth y cyngor sir ar 11 Mawrth 2016.

Tud. 1182 (Cyfarfod Ymgynghorol): Cadarnhaodd swyddogion y cyngor sir nad oedd y £3 miliwn ar gael i leihau costau'r meysydd parcio i'r dyfodol.

Page 1179 (*Public Footpaths*): The clerk stated that he had received copies by e-mail and had produced coloured and laminated A3 copies for council record.

Page 1180 (*2017 Flowers*): Information is to be obtained from Mr John Hadlow, the county council Ground Maintenance Supervisor, Parks & Gardens, regarding the supply of flowers and containers for 2017.

Page 1181 (*Pentop Playing Field*): The clerk confirmed that a grant of £7,268 had been received from the county council on 11 March 2016.

Page 1181 (*King George 5th Playing Field: Bowls Club lease*) – The clerk has discussed the item with Mr Andrew Morgan (Morgan & Davies, Valuers); Mr Morgan has confirmed that the council will receive his report before the end of this week.

Page 1182 (*Consultation Meeting*): The county council officers confirmed that the £3 million anticipated for easing car parking costs is not available and is for general purpose use.

Menter Aberteifi: Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Jane Roche yn cynnwys y cyhoeddiad bod diswyddiadau yn cymryd lle'n awr. Mae swydd Mrs Ann Stokoe, y rheolwraig gyffredinol, wedi dod i ben, ac mae Mrs Joanne Collins wedi ymddiswyddo fel swyddog datblygu'r farchnad. Mae'r Bwrdd yn cydnabod y bydd rhaid ailstrwythuro'r staff yn y dyfodol. Mae Mr Julian Beynon-Lewis wedi ei apwyntio yn rheolwr-gyfarwyddwr ar raddfa gwirfoddol, gyda Mrs Rhian Blackford yn rheolwraig fusnes, Ms Lauren Warner (swyddog Neuadd y Dref a gweinyddwraig y farchnad), a Mrs Clare Jones (trysorydd), gyda gofawlwr yn cael ei gynorthwyo gan y staff. Bydd Mrs Stokoe yn parhau ar raddfa ran-amser i ddatblygu system we'r dref, ac mae Mrs Lyndsey Sheen yn parhau i gynorthwyo i hel grantiau am welliannau i Neuadd y Dref a'r farchnad. Codwyd y pwyntiau canlynol gan y Cyng. Roche y mae angen i'r bwrdd eu hystyried: cryfhau aelodaeth y bwrdd; rhagor o dryloywder yng nghynnwys cofnodion/nodiadau'r pwyllgorau strategol gan sicrhau bod y cyfan ar gael i holl aelodau'r pwyllgor; sicrhau nad oes gwrthdaro buddiannau; datblygu'r cyfathrebu rhwng y bwrdd a sefydliadau allanol. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 12 Rhagfyr 2016.

Partneriaeth Canol Tref Aberteifi: Mae trefniadau'r Wyl Pythefnos o 3-17 Rhagfyr yn mynd yn eu blaen yn hwylus. Bydd parêd y llysernau, o dan arweinyddiaeth Theatr Byd Bychan, yn cymryd lle nos Wener, 9 Rhagfyr. Gan fod angen gwasanaeth Brigâd Ambiwlans Sant Ioan, cytunodd y Cyngor gyfrannu £50 tuag at eu coffrau – cynigiwyd gan y Cyng. Dai Brabrook ac eiliwyd gan y Cyng. Jane Roche. Cynhelir tân gwyllt ar y cei am 8.00yh. Mae cwmni teledu Tinopolis yn bwriadu cynnwys y gweithgareddau ar raglen "Heno" (S4C) nos Wener.

Castell Aberteifi: Mae'r grantiau yn dirwyn i ben, felly bydd rhaid i'r sefydliad sefyll ar ei draed ei hun. Golyga hyn y bydd rhaid ailstrwythuro'r staff eto a bydd angen cyflwyno cynllun busnes newydd. Mae nifer o briodasau wedi eu trefnu yn barod ar gyfer y flwyddyn nesaf, ac mae'r bythynnod gwyliau yn cymryd archebion am y flwyddyn 2017. Cynhelir Ffair Nadolig yn y Castell ar 10 a 11 Rhagfyr.

Menter Aberteifi: Cllr Jane Roche stated that at the meeting on 31 October 2016 the redundancy of Mrs Ann Stokoe, the General Manager, was confirmed; this was part of the Strategy and Executive Board's plan (AGM July 2016). Also Mrs Joanne Collins had resigned her post as the Market Hall Development officer as funding for the current post would come to an end at the end of February 2017.

The Board recognised that due to these staffing gaps (as well as a caretaker post – again with funding ending February 2017 without being replaced) the remaining staff members and Board would need to review roles.

A strategy meeting would need to be held urgently in order to ensure continuity and continued development. Mr Julian Beynon-Lewis had taken on the role of managing director on a voluntary basis, with Mrs Rhian Blackford (facilities manager), Ms Lauren Warner (Guildhall and market place administrator) and Mrs Clare Jones (treasurer/finance), plus a caretaker in post with all staff supporting.

Current funding for digital work/apps would allow for Mrs Stokoe to be employed on a consultancy basis one day a week, and thereby fulfil the grant requirements. Mrs Lyndsey Sheen continued to work on the application/funding through BPT for work on the Guildhall and market hall. Cllr Roche raised the following points that the board needs to address: strengthening board membership; transparency through recorded notes/minutes of strategy meetings to be available to all committee members; ensure there are no conflicts of interest; develop better communication between each other and external bodies. Date of next meeting: 12 December 2016.

Cardigan Town Centre Partnership: The plans for the Festive Fortnight from 3-17 December are now well in hand. The lantern parade, under the leadership of Small World Theatre, will take place on Friday, 9 December. As the services of the local St John Ambulance Brigade are needed, the town council agreed to contribute £50 as a grant – this was proposed by Cllr Dai Brabrook and seconded by Cllr Jane Roche. A fireworks display will take place at Prince Charles quay at 8.00pm on Friday. Tinopolis, the television company, will include the festivities live on the "Heno" (S4C) programme during the evening.

Cardigan Castle: The grants are now coming to an end; the institution, therefore, will have to be self-funding. A business plan now needs to be formulated. This dictates that the staff will once more be restructured. A number of weddings has been planned for next year and the self-contained cottages are booked well into 2017. The annual Christmas Fair will be held on 10-11 December at the Castle.

12. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.

Any Other Business at the discretion of the Mayor.

- (a) **Derbyniwyd cwyn gan breswylwyr Gloster Row nad oedd biniau baw cŵn ar gael yn yr ardal. Cytunodd y Cyng. Catrin Miles gysylltu â'r Cyngor sir.**
- (b) **Dywedodd y Cyng. Adams-Lewis ei fod wedi derbyn cwynion am y pridd a adawyd ar y palmant ger Rhos-y-dre yn dilyn gwaith gan gwmni Tai Ceredigion. Cytunodd gysylltu â'r cyngor sir.**
 - (a) A request has been received by residents in the Gloster Row area for a dog bin to be placed in the proximity. Cllr Catrin Miles agreed to contact the county council.
 - (b) Cllr Adams-Lewis stated that he had received complaints from elderly residents that soil had been left on the pavements following work by Tai Ceredigion. He agreed to contact the county council regarding clearing the pavements.

Oherwydd natur gyfrinachol y busnes oedd i'w drafod, gwaherddwyd y wasg, a thrafodwyd eitem 10 [208] mewn pwyllgor.

Cynigiwyd yr uchod gan y Cyng. John Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. Dai Brabrook.

*In view of the confidential nature of the business to be transacted, the press, etc., were excluded and the council discussed item 10 [208] in committee.
The above was proposed by Cllr John Adams-Lewis and seconded by Cllr Dai Brabrook.*

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.30yh
There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 8.30pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date